COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 26.03.25

.

PRESENNOL – Alun Jones, Gwynfryn Jones, Glennydd Evans, Carwyn Edwards, Awel Hughes (Cadeirydd) Rhian Ellis (Clerc) Cyng. Gwennol Ellis.

.

1.YMDDIHEURIADAU – Llyr Jones, Sioned Jones, Gwyn Davies

2. DATGAN BUDDIANNAU – Carwyn Edward ar bwyllgor y Neuadd

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir gan Carwyn Edwards ac eilwyd gan Glenydd Evans

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – .

Torri coed yr Eglwys – Wedi derbyn pris o £216 yn cynnwys TAW – Y Pwyllgor yn derbyn y amcanbris ag Alun I gysylltu gyda'r Cwmni I gario ymlaen.

Sgips – Y Sgips yn Dinmael a Llangwm dechrau mis Ebrill

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 28.02.25 £19,953.89

Gwariant hyd yma Nant Fach - £2589.00

Wedi derbyn ad daliad Grant Adroddiad Dichonoldeb a arian Cronfa Nantfach o £3433.77 am y flwyddyn. Wedi derbyn ad daliad TAW am y flwyddyn diwethaf,

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Glennydd Evans ac eilwyd gan Alun Jones a phawb yn gytun.

| | | | |
|---|---|---|---|
| R D Ellis | Peintio Cwt Hers | s137 | £295.00 |
| Gorlan Ddiwylliant | Aelodaeth | s150 | £180.00 |
| Rhian Ellis | Cyflog Clerc | s150 | £2471.04 |
| Rhian Ellis | Costau Clerc | s150 | £54.20 |

7. NEUADD FACH - Awel Hughes am gael pris gan Guthrie Jones & Jones I gael cofrestu y Neuadd, Cwt Hers a'r fynwent yn y 'Land Registry'.

8.CAEAU CHWARAE DINMAEL – Diolchwyd I'r Cyngor am dorri gwair y Parc. Mae'r Cyngor Cymuned yn gefnogol iawn I gael trefn ar y Parc, angen cael pris am yr 'inspection fee'.

9. CYNLLUNIO – DIM

10. GOHEBIAETH

Llythyr Aelwyd Llangwm yn gofyn am arian tuag at costau mynd I'r eisteddfod yn Parc Margam. Cytunwyd rhoi £500 iddynt gan ddymuno yn dda yn yr eisteddfod.

Llythyr Canolfan Henblas yn gofyn am arian tuag at papur bro y Cyfnod, Cytunwyd I roi £100 iddynt.

Pawb yn gytun I gyfrannu a’r arian I ddod allan o gronfa Nant Fach.

11. UNRHYW FATER ARALL

Codwyd y mater fod cwynion wedi dod fewn I glirio y ffens a’r mieri wrth ymyl yr afon. Penderfynwyd fod Alun yn cael prisau I glirio a gosod ffens bren Newydd yno.

Llongyfarchodd Cyng Gwennol Ellis holl ieuenctid yr ardal am fod wedi gwneud yn arbennig yn eisteddfod yr Urdd Cylch Hiraethog yn ddiwedar gan ddymuno yn dda iddynt yn yr eisteddfod Rhanbarth.

Y Clerc I ofyn I berchnogion Melin Wynt Ty Gwyn a Disgarth Isa am gyfraniad ariannol tuag at weithgareddau Cymunedol

DYDDIAD CYFARFOD NESA

CYFARFOD BLYNYDDOL am 7 o’r gloch

NOS Fawrth 28.05.25.